

# Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid nos Fercher 30ain o Fai 2018  
yn Swyddfa, Parc Menai am 6.30pm.

## Agenda

Presennol

Ymddiheuriadau

Cod Ymddygiad

Cofnodion Cyfarfod diwethaf 25-04-2018

Materion yn codi o'r cofnodion

Adroddiad Ariannol

Ceisiadau Nawdd

- Bobath - Cais Cenedlaethol

Taliadau angen sylw

D W Lewis	Torri gwair Ebrill
Cyflog	Mis 2 Mai £362.90
HMRC	Mis 2 £90-80
Cyngor Gwynedd Treth NDR	Ebrill a Mai
Cyngor Gwynedd Gwastraff Fynwent	2018-19 £244.00
Anghenion Swyddfa	Stampiau ag Inc £62.15

I'w trafod hefyd

Polisiau - Asesu Risg

- GDPR

Cais Clwb Peldroed ieuencid Penrhosgarnedd i Cyngor Pentir fod fel Corff Gweinyddu ariannol iddynt

Diweddariad Prydles canolfan Penrhos

Diweddariad Prosiect Ysgol Y Faenol

Prydles y Swyddfa

## Cofnodion Cyfarfod Is Bwyllgor Cyllid Nos Fercher Ebrill 25<sup>ain</sup> 2018

Ymddiheuriadau Cyng B Jones

Presennol Cyng D W Jones, D Jones-Morris, C E Hughes, J Pierce, a L James

Clerc Elwyn Jones

Cod Ymddygiad

Nodwyd fod Cyng Lowri James yn cynrychioli Cyngor Pentir ar Llywodraethwy Ysgol y faenol

Derbyn cofnodion cyfarfod 28 o Fawrth 2018

Materion yn codi o'r cofnodion - Dim nad oedd ar yr Agenda yn nes ymlaen

Adroddiad Ariannol

Dosbarthwyd mantolen ariannol Ebrill oedd yn cyd-fynd a mantolen y banc sef fod yna £11,834.40 yn y cyfrif

Dosbarthwyd Cyfrifon y Cyngor am y flwyddyn 2017-18 oedd yn dangos gorwariant o £3561.43 a bod £14,030.27 yn y cyfrif wrth iddo gael ei gau 31/03/2018 oedd yn cynnwys £8666.28 o ad-daliad TAW

Holwyd pam nad oedd y swm TAW yn ymddangos ar y daenlen Incwm a Gwariant – Credai y Clerc mae oherwydd nad oedd yn Incwm ond yn ad-daliad oedd y rheswm ond byddai'n holi'r cyfrifwyr am yr esboniad cywir

Ceisiadau Nawdd

- Cais Clwb Peldroed Iau Penrhosgarnedd  
Eu mantolen ariannol bellach wedi ein cyrraedd – Argymell i'r Cyngor Llawn talu £1000.00 eto iddynt ar gyfer yr ail ran o'i prosiect o adnewyddu eu cae

Taliadau angen sylw

D W Lewis	Torri gwair Mawrth	£280.00	Llyw Cymru	Rhent ¼ Cyntaf	£1605.40
Cyflog	Mis 1 Ebrill	£363.10	HMRC	Mis 1 £90-60	Dwr Cymru Dwr y Swyddfa £54.24

I'w trafod hefyd

Newid graddfeydd Tal Cyflog Cenedlaethol

'Roedd y Clerc wedi gweld tabl yn dangos cytundeb i gynnydd mewn tal ar gyfer Clercod. Credai fod cynnydd o ychydig geiniogau yr awr i gychwyn o'r 1af o Ebrill eleni ag wedyn ychydig mwy o geiniogau o'r 1af o Ebrill 2019 h.y Fod cytundeb 2 flynedd wedi ei gytuno. Clerc i ddarganfod mwy o fanylion ag adrodd yn ol i'r Cyngor Llawn.

Datblygiad Prydles canolfan Penrhos

Cytunwyd telerau Gamlin am wneud y gwaith ar ein rhan a dychwelwyd y ffurflen wedi i'r Cadeirydd ei arwyddo.

Bydd Gamlins bellach yn darparu'r ochr gyfreithiol ar ein rhan

Datblygiad Prosiect Ysgol Y Faenol - Dirprwyaeth o'r Cyngor wedi cyfarfod a Geraint Owen o Cyngor Gwynedd i geisio dod i gytundeb a chyfarch ein anghenion yn yr ochr Gymunedol o'r Ysgol.

Trafodaethau yn parhau a disgwyl i Cyngor Gwynedd ddod yn ol atom gydag opsiynau gwahanol

Prydles y Swyddfa

Dim datblygiad ar hyn er fod y Clerc wedi cysylltu a Ty Menai yma yn Parc Menai a Llywodraeth Cymru yn Gaerdydd